

Papur Pawb

Pris: 50c

Ebrill 2014

Rhif 398



Isobelle McGuinness a Pat Causton yn torri'r rhuban, gyda John Wildig

tud 3

Pobl a Phethe

tud 4 / 9

Ysgolion

tud 11

Y Gair Olaf

tud 12

Chwaraeon

Y Llew Dan Ddwylo Newydd

Mae'r Llew Gwyn, Tal-y-bont yn cael ei weddnewid ar hyn o bryd wrth i'r rheolwyr newydd, Gareth a Bev Pritchard wireddu breuddwyd, sef rhedeg y dafarn lle cafodd Gareth ei beint cyntaf erioed.

Yn fab i Geraint Pritchard Tynrhelyg, ac yn gyn-disgybl yn Ysgol Feithrin ac Ysgol Gynradd Tal-y-bont bu Gareth a'i wraig Bev yn byw yn Nhre'r Ddôl am saith mlynedd cyn symud i fyw uwchben y dafarn. Gyda'u mab Carl mae ganddynt gynlluniau cyffrous i droi'r Llew Gwyn yn dafarn lleol go iawn. Maent wedi cychwyn cynnig prydau bwyd bob dydd o'r wythnos a hynny o 12.00yp tan 9.00yh ac mae'r cinio dydd Sul eisoes yn profi'n boblogaidd iawn.

Mae Gareth yn wyneb cyfarwydd i fynychwyr y Gwyn gan taw ei frawd Keith oedd y tafarnwr o'i flaen. Cafodd brofiad helaeth pan yn cynorthwyo i ddatblygu busnes Consti yn Aberystwyth ac mae'n bwriadu defnyddio'r wybodaeth i adeiladu busnes pentrefol yn Nhal-y-bont, gyda staff lleol yn ei gynorthwyo. Bydd Bev yn dal i weithio fel gofialwr yn y gymuned ac yn cynorthwyo yn y Gwyn fin nos. Yn gyfrifol am y coginio mae Nicky Byrne ac Annie James a gallwch ddisgwyl gweld sawl wyneb lleol arall, megis Julie Enoch a Stacey Pritchard, yn ogystal â Shona, Alec a Pam sy'n helpu gyda'r gweini.



Carl, Bev a Gareth yn Y Llew Gwyn

Un newid pwysig yw'r ffaith bod modd defnyddio di-wifr i gysylltu â'r We am ddim yn y dafarn, ac mae'r jiwec boes wedi ei gysylltu â'r We hefyd sy'n golygu fod modd dewis caneuon Cymraeg yn syth o'r rhyngwrdd. Bydd rhai o ddigwyddiadau traddodiadol y Gwyn yn parhau o dan y rheolwyr newydd megis y Parti Pinc blynyddol sydd wedi codi £3,000 yn ystod y flwyddyn i ymchwil cancer ac Ambiwylans Awyr Cymru, a bydd yr henoed yn dal i dderbyn croeso cynnes yno unwaith yr wythnos.

Gyda'r bwrdd pŵl wedi symud i'r ystafell gefn gellir cynnal nosweithiau cymdeithasol a phartïon bellach yn hwylus iawn yn yr ystafell ar y chwith, a bydd modd i drigolion lleol

ddefnyddio'r ystafell yn rhad ac am ddim. Cadwch olwg allan hefyd am yr adloniant misol a drefnir, yn enwedig ar benwythnosau yn ystod misoedd yr haf.

Felly, os gwyddoch am rywun sydd yn chwilio am lety dymunol, neu'n awyddus i flasw bwyd cartref, coffi ffres a chwrw go iawn, yna'r Llew Gwyn amdani. Cofiwch os ydych yn rhy gysurus o flaen y tân a'r teledu gartref, medwrch ffonio ar unrhyw adeg am bryd i'w gludo allan (gan gynnwys cinio dydd Sul). Fel y dywedodd Gareth, "mae mor braf gweld y ddwy dafarn yn Nhal-y-bont bellach yn nwylo lleol". Dymunwn pob llwyddiant iddynt gyda'r fenter.

Agor Pont Cletwr

Ar ddydd Mawrth, 13 Awst 2013, gwelwyd gwirfoddolwyr o Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn cario rhannau trwm pont yng Ngwarchodfa Natur Cwm Cletwr. Mae'r bont yn cysylltu dwy ran o'r warchodfa ar bob ochr afon Cletwr.

Talwyd am adeiladu'r bont a phrosiectau i ddiogelu cudyllod coch, gwiwerod a llygod y dŵr gan gymynrodd y diweddar Megan Jones, gynt o Daliesin a chefnogwraig frwd o waith yr Ymddiriedolaeth.

Agorwyd y bont yn swyddogol ddydd Sadwrn, 29 Mawrth, gyda Mark Williams, Elin Jones ac Ellen Ap Gwynn, arweinydd Cyngor Ceredigion yn bresennol. Ymysg y 50 oedd yn bresennol cynrychiolwyd Cyngor Llangynfelyn gan y Cadeirydd Adam Lewis, Meinir Fleming a Bethan Davies.

Croesawyd y gwesteion gan John Wildig, Cadeirydd adran gogledd Ceredigion o YN DGC a soniodd am bwysigrwydd Cwm Cletwr am ei fywyd gwyllt a'i harddwch. Diolchodd i Emily Foot, Swyddog Cadwraeth Ceredigion am arolygu'r prosiect. Gofynnwyd i Isobelle McGuinness a Pat Causton, ysgutorion ewyllys Megan, i dorri'r rhubanau i agor y bont yn swyddogol ac i ddatguddio'r placiau sydd yn nodi cyfraniad Megan. Siaradodd Isobelle am ei chyfaill Megan a darllenodd

I dudalen 3

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781324
Eglwysfach/Ffwrnais:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont Aileen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont Gwenllian Parry-Jones, Tegwen Jones John Leeding, Lynn Ebenezer, Gwenllian Parry-Jones	832093 832760 832433 832093 832448 832076
Cadeirydd:		
Is-gadeirydd:		
Ysgrifennydd:		
Trysorydd:		
Tanysgriadau:		
Hysbysebion:		
Plygu'r Papur:		
Dosbarthwyr:		


Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur



papurpawb.com

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Phil a Megan, gyda Siôn yn dylunio. Golygyddion mis Mai fydd Bleddyn a Delyth (huws.henllan@btinternet.com; 832448) gydag Iolo'n dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 2 Mai, a bydd y papur ar werth ar 9 Mai.

Ras yr Iaith

Annwyl ddarlennwyr

Mae gwahoddiad i aelodau ysgolion, clybiau, busnesau a mudiadau redeg a chefnogi Ras yr Iaith ar ddydd Gwener 20 Mehefin 2014.

Nid Ras gyfnewid gyffredin mo hon ond rhediad hwyl. Does dim cystadleuaeth - dim ond gofyn i glybiau noddi i redeg 1 cilomedr gan basio baton o un cilomedr i'r llall.

Byddwn yn dechrau ym Machynlleth ben bore ac yn gorffen yn Aberteifi fin nos gan redeg drwy 7 tref arall ar hyd y ffordd. Ein bwriad yw rhedeg trwy Fachynlleth a threfi Ceredigion er mwyn dathlu'r iaith Gymraeg!

Mae'n costio £50 i glwb, ysgol neu fusnes noddi 1km. Ond gall gymaint o aelodau'r sefydliad hwnnw ag yr hoffech redeg y cilomedr am ddim cost ychwanegol. Ein bwriad yw gweld cannoedd o bobl ar hyd y dydd yn rhedeg i ddangos eu cefnogaeth i'r iaith ... ac i gadw'n iach. Mae rhagor o wybodaeth am y ras ar ein gwefan <http://rasyriaith.org> ac rydym ar Facebook a Twitter hefyd.

Bydd yr elw a gesglir o'r Ras yn mynd yn ôl ar ffurf grantiau i hybu'r Gymraeg yng Ngheredigion a Bro Ddyfi.

Mae pwyllgorau lleol yn cael eu sefydlu ar hyn o'r bryd ac rydym yn edrych am redwyr, stiwardiaid a gyrrwyr ... a phobl i godi posteri!

Byddwn ond yn rhedeg yn y trefi eleni ac nid rhwng y trefi. Dyma'r amserlen yn fras:

Dydd Gwener 20 Mehefin 2014

8.30am - Machynlleth (Mererid, Menter Iaith Maldwyn; Bedwyr Fychan)

10.00am - Aberystwyth (Jaci Taylor; Siôn Jobbins)

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Menter Iaith Cered yn Felinfach 01545 572350.

Edrychwn ymlaen at weld cannoedd yn rhedeg dros yr iaith!

Siôn T. Jobbins (Cadeirydd Ras yr Iaith)

Dyddiadur

Ebrill

13 Bethel 10 Gweinidog

Nasareth

Rehoboth 5 Huw Roderick

Eglwys Dewi Sant 11 Gweler manylion ar yr hysbysfwrdd tu allan i'r eglwys

18 Dydd Gwener y Groglith

Bethel 10 Gweinidog (C)

19 Eglwys Dewi Sant 11 - 4 yp

Eglwys yn agored. Croeso i bawb alw heibio i gael paned a chacen.

20 Sul y Pasg

Bethel 10 Pregethwr Gwadd 2 Oedfa'r Plant

Nasareth Uno ym Methel

Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth

Eglwys Dewi Sant 9.30

Gwasanaeth Pasg (Cymun Bendigaid)

24 Neuadd Goffa Sefydliad y Merched 'Mozart- y dyn a'i fiwsig' (Jenny a Tony Frost)

27 Bethel 5 Gweinidog

Nasareth

Rehoboth 2 Gwyn Davies

Eglwys Dewi Sant 11 Gwasanaeth Teuluol

28 Neuadd Goffa Merched y Wawr 'Creu Coronau' (John Price)

29 Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn (Medwyn Parry) 7.30 Llanfach

Mai

4 Bethel 10 Gwasanaeth Teulu

Nasareth 2 Bugail (C)

Rehoboth 5 Bugail (C)

Eglwys Dewi Sant 11 Boreol weddi

6 Llanfach, Taliesin 7 Sefydliad y Merched 'Lliwiau Naturiol' (Dr Brian Davies)

11 Bethel Y Gymanfa Ganu ym Methel, Aberystwyth. 10 Oedfa'r Plant 5.30 Oedolion

Nasareth Y Gymanfa Ganu

Rehoboth Y Gymanfa Ganu

Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid

Cymdeithas Alzheimer's

Helo,

Fy enw i ydy Lisa a fe ydw i yn gweithio fel Cyd-lynnydd Grŵp yng Ngheredigion, gyda'r Cymdeithas Alzheimer's.

Mae'r prosiect, 'Rhowch Gynnig ar Rhywbeth Newydd' yn cefnogi pobl sydd wedi effeithio gan ddementia i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasol. Wedi'i ariannu gan y Loteri Fawr, bydd ein prosiect yn cyflwyno amryw o weithgareddau ar draws De Orllewin Cymru i gynnwys Siroedd Caerfyrddin, Ceredigion, Penfro, Abertawe, Castell Nedd Port Talbot a Phen-y-bont.

Bydd y prosiect yn cyflwyno amrywiaeth o gyfleoedd dysgu anffurfiol a ffurfiol i bobl sydd â dementia ynghyd â'u gofalwyr.

Datblygir y grwpiau diddordeb mewn partneriaeth ag Addysg Gymunedol mewn amryw o leoliadau ar draws y gwahanol siroedd. Bydd pob grŵp yn rhedeg am 10 wythnos, fel arfer rhwng 1-2 awr ac fe fyddant yn amrywio o gelf, coginio, cwiltio clytwaith, gwneud ffyn cerdded, TG a llawer mwy.

Fe fydd y grŵp nesaf, Aerobig o'r Gadair, yn dechrau ar yr 25/04/14 ac yn cael ei gynnal yng Nghastellnewydd Emlyn.

Byddwn hefyd yn cynnig rolau gwirfoddoli diddorol, gyda mynediad i hyfforddiant priodol a thrwy hynny yn cynyddu eu gwybodaeth.

I ddod o hyd i fwy o wybodaeth, cysylltwch â: Lisa Evans, Cydlynnydd Grŵp, Cymdeithas Alzheimer's, Uned 4a Parc Aberporth, Blaenannerch, Ceredigion SA43 2DZ. Ffôn: 01239 810 810 / 07834 729774, e-bost: Lisa.Evans@alzheimers.org.uk

Diolch

Carem ddiolch o galon i blant, rhieni a ffrindiau Ysgol Tal-y-bont am y cardiau, dymuniadau da, anrhegion, y gacen, a'r blodau hyfryd a dderbyniais yn ddiweddar ar achlysur fy ymadawiad ag Ysgol Tal-y-bont. Byddaf yn gweld eich eisiau yn fawr.

Margaret Jenkins, Tynygraig.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Nia Jones, Ardwyn, Tal-y-bont sydd wedi pasio ei phrawf gyrru.

Diolch

Dymuna Eiriona Metcalfe, Nirvana, Tre Taliesin, ddiolch o galon i bawb am y dymuniadau gorau am wellhad yn ystod ei salwch, drwy alwadau ffôn, cardiau cyfarch ac ymweliadau yn yr ysbyty a gartref. Roedd eich consyn yn gysur mawr iddi hi ac i Bill. Diolch yn fawr iawn. Rydyn ninnau'n dymuno gwellhad buan i ti Eiriona.

Brysiwch wella

Brysiwch wella Mai Leeding, Glannant, ac Avril Bond, Brodawel, Tre Taliesin. Braf eich cael chi adre eto. Hoffai Avril ddiolch o galon i bawb am eu cardiau a'u caredigrwydd wrthi hi'n ddiweddar. Gan ddymuno gwellhad buan hefyd i Karen Stacey, Frondeg, ar ôl ei damwain gar ychydig wythnosau'n ôl.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau a phob

Pobl a Phethe



Meinir Jones, Clwb C.F.F.I. Talybont Geraint Jenkins Ysgrifennydd, Alaw Aur Jones Trysorydd, Dewi Jenkins Cadeirydd yn cyflwyno sic o £603.69 yr un i dair elusen, Aneurin Roberts ar ran Ambiwylans Awyr Cymru, Glan Davies gyda Rowland Jones ar gyfer Sefydliad Prydeinig y Galon, ac Elaine Evans rheolwraig Cartref Tregerddan, casglwyd y cyfanswm o £1,811.05 drwy ganu Carolau Nadolig.

dymuniad da i Elgan Griffiths a Marek Llwyd, y Gorlan, Tre Taliesin ar enedigaeth eu merch fach, Leusa Miriam ar 20 Mawrth.

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn

Mae Gwarchodfa Cors Ddyfi ar agor yn ddyddiol ers 31 Mawrth, 10.00yb – 6.00yh.

Disgwylir i'r wylfan newydd agor yn fuan.

Llongyfarchiadau

Dymuniadau gorau i Luke Jones sydd newydd dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed, ac sydd wedi cael swydd dros-dro fel cynorthwydd yn Ysgol Llangynfelyn

Cerddwn i gael Palmant!

“Mae diffyg palmant trwy gymuned Ysgubor y Coed yn gwylyddus, mae yn rhwystro symudiad trwy ein cymuned,” medd Harry Toland. “Mae eich Cyngor Cymuned wedi bod yn weithgar ers blyneddoddd yn cyflwyno deisebau a llythyron, yn gwneud galwadau ffôn ac cheisiadau llafar; fodd bynnag nid oes yma balmant. Mae'r Cyngor Cymuned wedi penderfynu gweithredu yn uniongyrchol. I'r perwyl hwn gofynnwn i bob aelod o'r gymuned a chefnogwyr i ymuno â ni am daith gerdded o gilfan Glandyfi i faes parcio Ffwrnais am 10yb ddydd Sadwrn, 26 Ebrill. Byddwn yn gwahodd y cyfryngau lleol er mwyn codi cyhoeddusrwydd i'n hachos, felly po fwyaf y dorf y gorau oll.”

Am ragor o fanylion cysylltwch â Harry 01654 781374 neu Alison 01654 781322.

Ymddiheuriad

Drwy amryfusedd y golygydd cyffredinol, gosodwyd llun anghywir yn y rhifyn diwethaf. Ymddiheurwn i'r Canon Andrew Loat gan nad llun ohono ef oedd ar dudalen 6 ond offeiriad arall. Gobeithiwn gynnwys llun o'r Canon Loat yn rhifyn Mehefin wedi'r gwasanaeth sefydlu ym mis Mai.

O dudalen 1

rannau o'r dyddiadur oedd yn sôn am y troeon y cerddodd hi a'i chi yn y cwm.

Wedi'r agoriad aeth rhai i weld y gweundir yn ail-dyfu ar ochr ogleddol y Warchodfa, a dychwelwyd i Dre'r Ddôl ar hyd y ffordd gefn gyda'i golygfeydd o'r Ddyfi gyda phawb yn cwrdd eto yn Siop Cynfelyn am de a chacen.

Gall rhieni a'i plant fwynhau taith ar hyd y cwm, drwy godi taflen yn y Siop a dilyn yr arwyddion ar hyd y ffordd, gan chwilio am gliwiau. Yn ôl yn y siop gellir datrys y cliwiau am wobwr fach. Mae'r llwybr ar agor i bawb ac ni chodir tâl.

Richard Spencer

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

loga
Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
Sue Jones-Davies
01970 624658

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Traddodwyd gweddi gan y Parchedig Wyn Morris i ddechrau'r cyfarfod yn festri Rehoboth, Taliesin, ar brynawn Mawrth, 11 Mawrth. Estynnwyd croeso i'r gŵr gwadd, John Meredith, Blaenpennal, sy'n enedigol o Bontrhydfendigaid. Yn ystod y prynhawn rhannodd ei atgofion am ei blentyndod ym Mhontrhydfendigaid drwy gyfrwng sawl hanesyn doniol a diddorol, gan nodi sut mae'r hen gymdeithas wedi newid ers ei blentyndod. Beth amser yn ôl cyhoeddodd ei hunangofiant

o'r enw *Yr Hyn Ydwyf*, ac mae'r gair 'ydwyf' yn berthnasol i un digwyddiad pwysig yn ei yrfa fel gohebydd. Cawsom sawl stori ddifyr am ei fywyd fel gohebydd ar staff BBC Cymru yn y Canolbarth gan egluro sut y digwyddodd iddo ynganu'r gair 'ydwyf' yn ystod canlyniad y Refferendwm i gael Cynulliad i Gymru ym mis Medi 1997. Diolchwyd iddo am brynawn plaserus iawn gan Ann Jenkins. Paratowyd y te gan Non Griffiths ac Ann Humphreys.

Ysgol Tal-y-bont



Eisteddfod yr Urdd

Unwaith eto gallwn ymfalchïo yn llwyddiant plant yr ysgol yn yr Eisteddfod Gylch eleni.

Dyfarnwyd 4 gwobr gyntaf i ddisgyblion yr ysgol - Miriam Davies am yr unawd a'r llefaru B12 ac iau Nia Benham am yr unawd chwythbrennau. Dyfarnwyd 2il i Oisín Lludd, Nia Benham, i'r parti canu a'r ymgom ac fe ddyfarnwyd 4 trydydd gwobr i Glain Davies hefyd.

Yna yn yr Eisteddfod Rhanbarth dyfarnwyd y trydydd wobwr i Miriam a'r Grŵp Dawnsio Disgo a'r wobwr gyntaf i Nia. Pob hwyl i ti yn Y Bala ym mis Mai.

Llongyfarchiadau mawr i'r holl blant a fu'n cystadlu a hoffwn ddiolch o galon i'r staff am eu cefnogaeth ac i Siôn Pennant, Catrin Mai, Catrin Jenkins ac Elen Ebenezer am eu cymorth gyda'r hyfforddi. Hoffwn ddiolch hefyd i'r rhieni am fod mor gefnogol i ymdrechion yr ysgol i sicrhau fod cymaint o blant â phosibl yn cystadlu ac i'r hyfforddwyr preifat am gydweithio gyda ni.

Pêl-droed yr Urdd

Yn ystod mis Mawrth aeth dau dîm o'r ysgol i gystadlu ym mhencampwriaethau pêl-droed yr Urdd ar Gaeau Blaendolau. Tîm ifanc iawn o fechgyn oedd gennym eleni, hanner ohonynt ym Mlwyddyn 4 a rhaid canmol yr ymdrech a'r ymroddiad yn fawr, wrth gystadlu yn erbyn timau lawer yn hŷn.

Profodd y prynhawn i fod yn fwy llwyddiannus o lawer i'r tîm merched. Wedi chwarae ac ennill eu gêmau cychwynnol a'r rowndiau cynderfynol, dyma'r merched yn cyrraedd y ffeinal. Eu gwrthwynebwyr oedd Ysgol Gymraeg Aberystwyth ac roedd hi'n brofiad rhyfedd i rai aelodau o'r ddau dîm am eu bod yn cyd chwarae i Dal-y-bont ar ddydd Sadwrn ond nawr yn gwrthwynebu ei gilydd! Tal-y-bont ddechreuodd orau gyda Tia'n sgorio gôl i godi ein gobeithion. Roedd y tîm yn dal i chwarae'n dda yn enwedig o gofio mai dyma'r tro cyntaf i nifer o'r merched chwarae gyda'i gilydd a'u bod wedi chwarae nifer o gêmau'n barod, ond yn y diwedd, colli oedd eu hanes a hynny o 2-1. Rydym yn falch iawn o berfformiad y ddau dîm ac yn arbennig o blës gyda'r merched.

Hoffwn ddiolch yn fawr i Ruth, Karen, Bernard a Mike am hyfforddi'r timau ac am gefnogi'r ysgol.

Band Llinynnol Gogledd Ceredigion

Llongyfarchiadau mawr i Oisín Lludd am gael ei ddewis i fod yn y gerddorfa iau. Yn ystod y mis, bu'n chwarae mewn cyngerdd yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau gyda Ms Isobel McGuinness yn arwain. Roedd pawb a fu yno'n canmol safon y perfformio yn fawr iawn. Da iawn ti Oisín a chofia beidio â rhoi'r ffidil yna yn y to!

Roedd hi'n braf i weld cyn ddisgyblion yr ysgol yn chwarae yn y band pres ieuencid gyda Mr Alan Phillips hefyd. Da iawn chi fechgyn.



Digwyddiadau yn yr Ystafell Haearn, Eglwysfach

Clwb Llyfrau

Bydd cyfarfod o'r clwb llyfrau pŵn Gwener 11 Ebrill, 2.00pm. Mae croeso ichi ymuno, byddwn yn trafod y llyfr *The 100 year old Man who Climbed out of a Window*. Am ragor o fanylion cysylltwch efo Wendy 01654 703730 neu Sheila 01654 781332

Dawnsio Albanaidd

Nos Fercher 23 Ebrill, croeso i bawb!

Ffilm

27 Ebrill 1'r plant pŵn olaf Gwyliau'r Pasg, 2.00pm. Eich syniadau am ffilm i Alison 01654 781322.

Dosbarthiadau Ymarfer

Fe hoffai Heather Williams (01970 612026) ddysgu dosbarth ymarfer Symudiadau Meddylgar, yn seiliedig ar ei phrofiad 25 mlynedd o ddysgu Tai Chi a thylino'r corff. Cysylltwch drwy ebost neu ffôn bri_hez@yahoo.com os oes diddordeb gennych.

Bistro Gannets



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

CYNGERDD

Bydd y grŵp gwerin BRENIG a Judith Hopkins yn cadw noson yn Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach, nos Wener 18 Ebrill. £5 wrth y drws. Croeso i bawb.

www.brenigfolk.co.uk

Gwaredu Gwastraff Gwyrdd yn Gyfrifol



Gwastraff gwyrdd yn yr afon ger bont dros y Ceulan at y ffordd o'r Patsyn Glas tuag at Allt y Crib.

Yn sgil effaith y llifogydd mawr nôl yn Mehefin 2012 mae'n bwysig iawn fod pawb yn chwarae eu rhan drwy wneud be allant i osgoi neu leihau'r tebygolrwydd bod hyn yn digwydd eto. Mae hyn yn golygu gweithredu mewn sawl gwahanol ffordd a mae llawer wedi cael ac yn parhau i gael eu wneud gan unigolion a'r gwahanol asiantaethau sydd â diddordeb yn hyn. Un peth gall darllenwyr Papur Pawb a thrigolion y fro ei wneud ydy sicrhau eu bod yn gwaredu eu gwastraff gwyrdd mewn modd cyfrifol. Mae hyn yn medru cael ei wneud mewn sawl ffordd:

Mae'r Cyngor Sir yn gwerthu biniau compostio am £17.50. Gallwch eu prynu yn y depo yn Ystad Ddiwydiannol Glanrafon, Llanbadarn.

Cewch fynd â gwastraff gardd i holl Safleoedd Gwastraff Domestig y sir AM DDIM. Mae'r un agosaf i Dal y bont ar Ystad Ddiwydiannol Glanrafon, Llanbadarn. Bydd angen caniatâd os ydych chi'n defnyddio fan/pic-yp mawr neu drelar dwy echel.

Talu'r Cyngor drwy'r cynllun casglu gwastraff gwyrdd i'w gasglu a gwaredu o'ch cartref.

Am rhagor o wybodaeth, gan gynnwys gwneud trefniadau am gasgliadau gwastraff gwyrdd, neu er mwyn adrodd ar unrhyw achosion o bryder ffoniwch 01545 572 572 neu e-bostiwch hpw@ceredigion.gov.uk



GLANRAFON

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON



JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

Cymdeithas Treftadaeth Tre'r Ddôl

Mwy na thebyg os ydych dan 25 oed ac am brynu peint yn Aberystwyth, bydd y siopwr neu'r tafarnwr yn gofyn i chi am gadarnhad o'ch oed. Yn anffodus, canrif a hanner yn ôl, roedd pethau'n wahanol. Roedd pawb yn cynnwys plant a Methodistiaid yn yfed cwrw bob dydd, am y rheswm syml nad oedd y cyflenwad dŵr yn ddiogel.

Ar 25ain o Fawrth clywodd aelodau'r Gymdeithas hanes datblygiad tafarndai Aberystwyth gan William Troughton mewn sgwrs ddiddorol ac eang oedd yn cynnwys enwau'r tafarnau, tyfiant y bragdy yn Nhrefechan ac effaith dyfodiad y rheilffordd ar y diwydiant lleol.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas Nos Fawrth, 29 Ebrill am 7.30 yn Llanfach, pan fydd Medwyn Parri yn rhannu ei atgofion.

Brenhines a morwynion CFFl Ceredigion a Ffermwr Ifanc y Flwyddyn 2014-15



*Y frenhines yw Caryl Haf Jones, Llanddewibrefi a'i morwynion (cylch cloe)
Siân Downes, Llangetho; Menna Williams, Llanwenog;
Elen Thomas, Pont-siân, Gwenan Davies, Mydroilyn
a Ffermwr Ifanc y Flwyddyn yw Geraint Jenkins, Tal-y-bont.*

Llun: Tim Jones

Sefydliad y Merched Taliesin

Yn ystod y ddau fis a aeth heibio, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd a gweithgareddau yn y gymuned. Yn nechrau mis Chwefror, Chris Gilbert fu'n ein hyfforddi i osod blodau. Bu pawb wrthi'n ddiwyd gan lwyddo i greu gosodiad lliwgar a modern ei naw.

Mis Mawrth roedd y Llanfach yn wledd i'r llygaid wedi ei addurno'n bwrpasol gan yr aelodau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cafwyd cawl blasus a tharten afal, gan gloi'r pryd bwyd gyda phaned a phice bach, a'r cyfan wedi'i baratoi gan ddwy o'n haelodau medrus Linda Hicks a Meinir Fleming. Grŵp canu gwerin Brenig fu'n ein diddori gan ganu am sefyllfaoedd a lleoedd y buont yn eu mwynhau – o'r Wyddfa i lawr i Abergwaun ac o borthladd Aberystwyth i'r dolydd a'r tymhorau gwahanol ger cartref Dafydd ger afon Brenig. Cafwyd noson o hwyl ac adloniant difyr a phwrpasol. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad i noson lwyddiannus iawn gan ein Llywydd, Beti Wyn.

Ar y 1af Ebrill, Diane Logan o'r Borth fu'n ein hysbrydoli ar sut i ailddeddfyddio hen siwmperi a blancedi gwlan wrth dorri ac ail-greu i wneud dillad ffasiynol unigryw. Trafodwyd y cynlluniau a'r paratoadau gogyfer â'r Rali Wanwyn yn Nhregaron ar y 12fed Ebrill. Paratowyd paned a lluniaeth i ddiweddu'r noson gan Chris Gilbert a Glen Griffiths.

Yn ychwanegol i'r nosweithiau misol, mae nifer o ardal

O'r Cynulliad

Mae materion trafnidiaeth yn yr ardal hon wedi bod yn cael dipyn o sylw'r Cynulliad yn ddiweddar. Roeddwn yn falch iawn fod Simon Thomas, AC y Gorllewin a'r Canolbarth, wedi llwyddo i gael dadl am ail-agor y linell rheilffordd o Gaerfyrddin i Lamed, Tregaron ac Aberystwyth ar agenda'r Cynulliad. Roeddwn yn falch o'i gefnogi, ac rwy'n cadw mewn cyswllt gyda'r grŵp sydd wedi ei sefydlu er mwyn ymgychu ar y pwnc yma. Wrth gwrs, mae'n syniad fydd yn cymryd cryn amser i'w wireddu, a doedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r dadleuon ddim yn arbennig o frwd y tro hwn. Ond mae nifer o resymau pam yr wyf i'n credu fod yna gyfle i wthio'r syniad yma.



Ceir nifer o enghreifftiau llwyddiannus iawn erbyn hyn o adfer llinellau a gaewyd yn y 60au. Mae'r nifer o deithwyr ar linell Glyn Ebwy ers ei hail-agor yn 2008 wedi bod y tu hwnt i bob disgwyl. Hefyd, mae lein wledig 'Waverley' yn ne'r Alban yn agor y flwyddyn nesa. Byddai'r gost o weld trenau eto'n rhedeg trwy Langybi, Llanilar ac Ystrad Fflur yn sylweddol wrth gwrs. Ond byddai cynllun o'r fath yn ddefnydd llawer gwell o'r pwerau benthyg newydd yr y'n ni'n gobeithio ddaw i'r Cynulliad na ffordd osgoi newydd yr M4 yng Nghasnewydd, ac mae pob tegwch yn dweud y dylai Cymru dderbyn cyfran o'r biliynau sydd i'w gwario dros y blynyddoedd nesaf ar gynllun trenau HS2. Mae Jonathan Edwards AS ac eraill yn ymgychu ar hyn yn San Steffan, ac os am fwy o wybodaeth ar y grŵp sy'n ymgychu dros ailagor y lein, ewch at www.trawslinkcymru.org.uk.

Gobeithio hefyd y cewn ni'n fuan – o bosib erbyn i'r golofn hon fynd i'r wasg – newyddion ar wella gwasanaethau trên ar y linell rhwng Aberystwyth a'r Amwythig. Rwyf wedi bod yn pwysu ar y Gweinidog ar y mater yma dros y misoedd diwethaf, a bu nifer yn gweithio'n galed yn yr hydref i sicrhau fod miloedd o holiaduron wedi eu llenwi fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae'r isadeiledd yn ei le, ac mae'n hen bryd gwireddu'r addewid yma.

Mae gwasanaethau bws, wrth gwrs, hefyd yn bwysig i nifer, ac mae trafodaethau'n parhau ar sut i ddatblygu'r gwasanaethau allweddol a achubwyd yn dilyn ymadawiad Arriva. Cyhoeddwyd adroddiad annibynnol yn ddiweddar oedd yn argymhell i wasanaethau dros bellter hir, fel y rhai rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin a rhwng Aberteifi ac Aberystwyth, alw mewn llai o bentrefi oddi ar y ffordd fawr er mwyn cyflymu siwrneau. Beth yw barn pobl Ceredigion ar hyn? Cofiwch fod croeso i chi gysylltu gyda mi unrhyw bryd ar faterion trafnidiaeth neu unrhyw bwn – ar elin.jones@cymru.gov.uk neu drwy gysylltu gyda'm swyddfa ar 01970 624 516.

Llancynfelyn yn cynnal grŵp cerdded i gadw'n heini a chael sgwrs a chwmni difyr. Awn unwaith y mis am dro o gwmpas y fro. Yn ystod y misoedd ola bu'r grŵp yn cerdded i fyny Cwm Cletwr ac o gwmpas Cefn Gweiriog cyn dychwelyd am banded i Gaffi Cynfelyn. Hefyd, mae croeso i unrhyw un i ymuno gyda'n Clwb Cinio sy'n cael ei gynnal ar y trydydd dydd Llun yn y mis. Croeso i aelodau newydd i ymuno ar unrhyw adeg.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mawrth.

1. Gwefan y Cyngor

Mae'r cyn-glerc yn parhau i frwydro ar ran y cyngor ar y mater yma. O ganlyniad i broblemau technegol, nid yw'r wefan yn fyw eto. Gobeithir y bydd y wefan yn fyw cyn diwedd mis Ebrill.

2. Ffos-fudr

Ar ôl trafodaeth gydag adran gynllunio'r Cyngor Sir a CADW, dyma'r sefyllfa ynglŷn â chyfreithlondeb dymchwel Ffos-fudr. Yn ôl y Cyngor Sir, nid oes sôn am unrhyw gais cynllunio. Wedi dweud hyn, nid yw Ffos-fudr wedi'i gofrestru fel 'adeilad preswyl' yn ôl eu cofnodion hwy. Gan nad yw'r adeilad wedi'i gofrestru fel adeilad preswyl, nid oes angen i berchennog y tir wneud cais am ganiatâd cynllunio, heblaw ei fod yn adeilad rhestredig ('listed building'). Yn ôl cofnodion CADW, nid yw'r adeilad ar y rhestr hon ychwaith. Gan hynny, nid oedd perchnogion y tir angen caniatâd i ddimchwel yr adeilad.

3. Tocio Cloddiau

Archwiliwyd ffordd a ffosydd Cwm Ceulan ar 5 Mawrth gan archwiliwr o Adran Briffyrd y Cyngor Sir, ac mae'r gwaith wedi'i basio ymlaen i'r uwch-arolygydd. Byddwn yn parhau i holi'r adran ynglŷn â'r mater.

4. Biniau Halen

Mae Adran Priffyrd y Cyngor Sir wedi ymateb gan ddweud y bydd archwiliad o'r biniau halen cyn gaeaf nesaf, a bod yr adran wedi derbyn ein llythron ynglŷn â bin Glanrafon a'r bin ar y ffordd rhwng Penysarn a Chwmslaid. At hyn, fe godwyd y problem o gyflwr y biniau halen yng nghyfarfod ymgynghorol y Cyngor Sir ar 24 Mawrth.

5. Cyngor Sir Ceredigion – Cau ffordd dros dro

Derbyniwyd hysbysiad ynglŷn â chau ffordd dros dro yn Nhal-y-bont. Bydd yr U1008, sef y ffordd wrth ymyl y Cae Bach lle mae'r biniau ail-gylchu, ar gau o 08:00 8 Ebrill hyd nes 17:00 9 Ebrill ar gyfer gwaith atgyweirio'r gwasanaeth dŵr. Mae map o leoliad yr hewl ar hysbysfwrdd y Neuadd Goffa.

6. Cyngor Sir Ceredigion – Materion yn ymwneud â pharcio yn Nhal-y-bont

Derbyniwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn nodi bod pryderon wedi eu codi ynghylch parcio anghyfreithlon ac anystyriol yn ardal Tal-y-bont. Nodir fod y Cyngor Sir a Heddlu Dyfed-Powys am gydweithio i wella'r sefyllfa, gan gynnwys cynyddu nifer y patrolau yn yr ardal.

Merched Cyfoes Beca yn Codi Cyffro Yng Nghefn Gwlad y Gorllewin

Dau air sydd ar wefusau'r criw bach wrth wraidd Radio Beca y mis hwn. 'Diolch' yw un. 'Cyffro' yw'r llall. Ddydd Gŵyl Dewi eleni lansiwyd ymgyrch aelodaeth Radio Beca – ymgyrch â'r nod o greu gorsaf radio Gymraeg annibynnol a fydd yn un o gwmnïau cydweithredol mwyaf Cymru.

Geraint Davies, cadeirydd y grŵp llywio, sy'n lleisio'r diolch. 'Ma'r ymateb yn nifer o gymdogaethau cefn gwlad y gorllewin wedi bod yn grêt – rhwng £700 a £1,000 gan amlaf. Mae dros 400 o bentrefi yn ardaloedd Cymraeg y tair sir ac mae cael ymateb fel hyn yn golygu bod y nod o greu aelodaeth o rhwng 4,000 a 5,000 yn gwbl bosib' meddai. 'Rwy'n ddiolchgar iawn i 'genhadon' Radio Beca yn y cymdogaethau hynny am eu harweiniad ysbrydoledig' ychwanegodd.

Yn lleisio'r cyffro mae Euros Lewis, Ysgrifennydd Cymdeithas Radio Beca. 'Yn ogystal â'r aelodaeth addawol a gasglwyd ar y dydd mae sieciau aelodaeth yn cyrraedd y swyddfa yn ddyddiol – o Lundain a rhannau eraill o Loegr yn ogystal â threfi a chefn gwlad y gorllewin. Ond yr hyn sy'n arbennig o galonogol yw ymateb pobl ifainc i'r orsaf. Nid yn unig mae nhw'n helpu i ddod a'r arian aelodaeth i law ond mae'r darllediadau ma' nhw'n eu creu i'w lawrlwytho oddi ar wefan Radio Beca yn syfrdanol o boblogaidd' meddai.

Yr hyn sy'n gyffrous am y datblygiad yw fod cyfraniad y bobl ifainc yn cyrraedd pobl o bob oedran. Wythnos cystadlaethau Hanner Awr Adloniant y Ffermwyr Ifainc roedd y rhaglenni a grëwyd gan y bobl ifainc yn denu cynulleidfâ hen ac ifanc. Cafwyd ymateb tebyg i ddarllediad araith Megan Tudur ym mharêd Gŵyl Ddewi Aberystwyth a disgwylir yr un ymateb o Ddiwrnod Maes CFfl sir Gâr ar 5 Ebrill hefyd. Medd Euros: 'Dyma'n union bwrpas a photensial Radio Beca – caniatáu i gymdeithas y Gymraeg gryfhau ei hunan trwy ei gafael ar awenau y cyfrwng pwerus hwn.'

Y cam nesaf i'r ymgyrch Cyd-adeiladu yw cael holl gymdeithasau, mudiadau a chynghorau cymdogaethau'r Gymraeg yn aelodau. Y capel cyntaf i ymaelodi oedd capel y Tabernacl, Maenclochog, sir Benfro. Yn ystod yr wythnos hon, derbyniwyd y tri chynghor bro cyntaf yn gyd-adeiladwyr, sef: Llandisilio-go-go, Llanllwchaearn a Llangrannog – y tri yng Ngheredigion. Yng Ngheredigion mae'r ysgol gyntaf i ddod yn aelod: Ysgol uwchradd Tregaron. Ond mae'r fraint o fod y cyngor sir gyntaf i ymaelodi wedi'i hawlio gan Gyngor Sir Gâr.

Pa ardal fydd a'r rhif uchaf o gyd-adeiladwyr? Pa ysgol gynradd fydd y gyntaf drwy'r tair sir i ymaelodi? Pa enwad fydd a'r nifer fwyaf o gapeli yn aelodau? Pa glwb pêl-droed neu rygbi (neu hoci, falle) fydd ar frig u rhestr aelodaeth?

Ni, yn ein cymdogaethau, sydd â'r ateb i'r cwestiynau hynny. A ninnau hefyd sydd â dyfodol menter a all roi hyder newydd i economi, diwylliant a iaith cymdogaethau sir Benfro, sir Gâr a Cheredigion yn ein dwylo.

I ymaelodi, anfonwch siec am £100 (ynghyd ag enw, cyfeiriad ac e-bost) at Radio Beca cyf., Uned 2, Bryn Salem, Felin-fach, Dyffryn Aeron, Ceredigion, SA48 8AE – neu dorrwch hysbyseb Radio Beca o'r papur hwn a'i hanfon atom.

argraffu da
am bris da



y/Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theillio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talleis, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Ysgol Feithrin Tal-y-bont

Bore Coffi'r Cylch Meithrin

Roedd bore Sadwrn y 29 o Fawrth yn fore llawn hwyl a sbri yn y Neuadd Goffa gyda bore coffi yn cael ei gynnal i godi arian i gefnogi'r Cylch Meithrin. Roedd yn gyfle arbennig am glonc i'r oedolion ac i'r plantos i gael hwyl a sbri yn chwarae gyda'i gilydd yn ogystal â chael eu wynebau wedi'u peintio - roedd blodau a teigrod yn boblogaidd iawn a fe wnaeth 'Spiderman' ei hun wneud ymddangosiad - daeth mewn drwy'r drws ag allan drwy'r ffenest!

Mae pawb sy'n gysylltiedig â'r Cylch yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a dderbynnir mewn wahanol ffyrdd gan wahanol bobl gydol y flwyddyn. Gwerthfawrogir yn fawr y gefnogaeth a dderbynnir mewn digwyddiadau fel y bore coffi - diolch yn fawr iawn i Medi James a Fal Jenkins am arwain gyda'r trefniadau ar yr achlysur yma. Diolch i'r rhai wnaeth baratoi'r cacennau blasus ar gyfer y stondin ac i gefnogaeth busnesau lleol gan gynnwys Atebol ac Inc yn ogystal â'r Cyngorydd Ellen Ap Gwynn am ei chyfraniad drwy werthiant o brintiau. Rhwng y gwahanol weithgareddau codwyd dros £350 tuag at gronfa'r Cylch.



Staffio

Dymunwn ddiolch i Ceri Morgan am ei chymorth fel cynorthwy-ydd dros yr wythnosau diwethaf. Mae'r plantos bach wedi cael hwyl yn ei chwmmi! Pob lwc i Rhian a fydd yn ein gadael ddiwedd y tymor i gychwyn ar ei swydd newydd yn Ysgol Penllwyn. Dymuniadau gorau i ti a phob hwyl i'r dyfodol. Estynnwn groeso i aelod newydd o staff a fydd yn cychwyn ar ôl y pasg sef Lynwen James. Pob lwc yn dy swydd newydd a croeso i'n plith.



Cyfnod newydd

Rydym yn ffarwelio â Maya a fydd yn dechrau yn Ysgol Tal-y-bont ar ôl hanner tymor y Pasg ac i Emmi a fydd yn cychwyn yn Ysgol Craig yr Wylfa. Pob lwc i chi'ch dwy yn yr ysgol fawr! Estynnwn groeso mawr i Lela ac Oska a fydd yn ymuno â ni ar ôl y Pasg. Edrychwn ymlaen i gael hwyl a sbri y tymor nesaf!

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwsr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
whitelionhotel1@btconnect.com

Cymorth i Wlad yr Haf



Swyddogion ac aelodau Undeb Amaethwyr Cymru yn llwytho porthiant a gyfrannwyd yng ngogledd Ceredigion at apêl amaethwyr Gwlad yr Haf a ddioddefodd mor enbyd yn y llyfogydd diweddar.

Dyma un o ddeg llwyth a gyfrannwyd trwy'r sir ac yn y llun gwelir Caryl Wyn-Jones (chwith, UAC), Ieuan Evans (ar y lori), y plant yw Alun Eifion Wyn Roberts ac Ynyr a Bedwyr Jenkins, gyda'r ffermwyr lleol Dafydd Jenkins, Dafydd Jones, Aled Owen, a Cefin Evans (ar y dde). Mae croeso i ffermwyr sy'n medru cyfrannu porthiant, neu chludwyr sy'n medru cynorthwyo gyda'r cario i Wlad yr Haf gysylltu â chadeirydd UAC Ceredigion, Aled Rees ar 01239 810379 / 07968 386039 (aled.rees04@virgin.net)

Diwrnod y Llyfr 2014



I ddathlu Diwrnod y Llyfr eleni cynhaliwyd amrediad o weithgareddau i ddisgyblion ym Mhenweddig. Yn y llun gwelir Wern Davies Blwyddyn 7, a enillodd y gystadlaeth i wisgo fel cymeriad allan o lyfr, sef y Seiclops 'Tyson' o *Percy Jackson and the Sea of Monsters*. Hefyd yn y llun mae Lynwen Rees Jones, Cyfarwyddwr CAA a barnodd y gystadlaeth, a Gwenallt Llwyd Ifan, Pennaeth. I nodi canmlwyddiant geni Dylan Thomas, gwylodd disgyblion uwch yr ysgol *Under Milk Wood* a darlenniad o'r cyfieithiad Cymraeg *Dan y Wenallt*.



Bonet Pasg

Ar ei ben yn rubanau - rhed y gwin,
Rhed y gwaed a'r dagrau,
Ond craith ei foch coch sy'n cau,
A'i fedd sy'n dal i faddau

D. Ph. D.

Ysgol Llangynfelyn

Iaith a Chwarae

Cynhaliwyd tri sesiwn Iaith a Chwarae yn yr ysgol yng ngofal Mrs Nemes i blant bach cyn-ysgol, y Dosbarth Derbyn a'u rhieni. Daeth criw bach da ynghyd i chwarae, i wrando ar storïau ac i wneud gweithgareddau crefft. Cafodd bawb lawer o hwyl!

Diwrnod Tacluso a Garddio

Daeth criw da o rieni a phlant i'r ysgol ar Ddydd Sul yn ddiweddar i dacluso ac i arddio. Paentiwyd y siediau, glanhawyd y pwll natur a llenwyd y gwelâu llysiau gyda chompost a gwrtaith yn barod i'w plannu.

Staffio

Croesawn Miss Cerys Jenkins atom fel cynorthwyydd dosbarth. Gobeithiwn y bydd hi'n hapus iawn gyda ni yma yn yr ysgol.

Eisteddfod Offerynnol yr Urdd

Aeth pob un o ddisgyblion dosbarth Miss Jones i Ysgol Penglais i gystadlu yng nghystadleuaeth y band/cerddorfa i Flynnyddoedd 6 ac Iau. Bu'r plant yn ymarfer yn galed yn yr wythnosau cyn yr eisteddfod. Ar y diwrnod, daeth y band yn 3ydd. Diolchwn yn fawr i iawn i Helen Hicks am drefnu'r gerddoriaeth ac am hyfforddi'r plant.

Eisteddfod Ysgol

Cynhaliwyd ein Heisteddfod Ysgol ar brynhawn Ddydd Iau Mawrth 20fed. Bu cystadlu brwd iawn drwy'r prynhawn gyda neuadd yr ysgol yn llawn o rieni a ffrindiau yn cefnogi'r plant. Hyfryd iawn oedd gweld pob un o'r plant yn rhoi tro ar ganu ac adrodd yn unigol a llawer yn cystadlu gyda'i hofferynnau cerdd. Diolchwn yn fawr iawn i Mrs Dana Edwards am feirniadu'r holl gystadlaethau ac i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am baratoi paned a chacen yn yr egwyl. Cyfrannwyd hamper o fwydydd Cymreig i'r raffl gan Gwmni Cletwr. Ar ddiwedd yr Eisteddfod tîm Mochno oedd yn fuddugol gyda Chletwr yn ail. Enillodd Milly Hughes y Gadair a'r tlws am y pwyntiau uchaf i Ddosbarth Cyfnod Allweddol 2 ac enillodd Dylan Kerridge y tlws i Ddosbarth y Cyfnod Sylfaen.



	1af	2il	3ydd
Llefaru Blwyddyn 3 a 4	Asher Wood	Jasmine Berry	Poppy Roberts
Celf Blwyddyn 3 a 4	Seamus Byrne	Asher Wood	Elijah Girardi
Canu Blwyddyn 3 a 4	Tilly Heathfield	Jasmine Berry	Asher Wood
Llawysgrifen Blwyddyn 3 a 4	Tilly Heathfield	Poppy Roberts	Jasmine Berry
Llefaru Dosbarth Derbyn	Hopcyn Cosson	Ava Lewis/Felix Hustings	-
Llawysgrifen Derbyn	Ava Lewis	Alice Groves/Hopcyn Cosson	Felix Hustings
Canu Dosbarth Derbyn	Ava Lewis	Felix Hustings	Hopcyn Cosson
Celf Dosbarth Derbyn	Ava Lewis	Hopcyn Cosson	Felix Hustings/Alice Groves
Llefaru Blwyddyn 1	Noah Berry	Dylan Kerridge	-
Celf Blwyddyn 1	Dylan Kerridge	Noah Berry	-
Canu Blwyddyn 1	Dylan Kerridge	Noah Berry	-
Llawysgrifen Blwyddyn 1	Dylan Kerridge	Noah Berry	-
Llefaru Blwyddyn 2	Finn Langley	Katy Indeka	Violet Jordan/Iwan Foster Leslie
Llawysgrifen Blwyddyn 2	Katy Indeka	Finn Langley/Violet Jordan	Iwan Foster Leslie
Canu Blwyddyn 2	Finn Langley	Violet Jordan	Katy Indeka
Celf Blwyddyn 2	Katy Indeka	Iwan Foster Leslie/Finn Langley	Violet Jordan
Llefaru Blwyddyn 5	Ben Phillips	Grace Davies	Poppy Kerridge
Celf Blwyddyn 5	Jasmin Foster Leslie	Ruby Indeka	Grace Davies
Canu Blwyddyn 5	Poppy Kerridge	Toni Bensley	Harvey Brown/Grace Davies
Llawysgrifen Blwyddyn 5	Ruby Indeka	Poppy Kerridge	Jasmin Foster Leslie
Llefaru Blwyddyn 6	Milly Hughes	Zeb Rowell	Mabli Rose
Llawysgrifen Blwyddyn 6	Milly Hughes	Zeb Rowell	Mabli Rose
Canu Blwyddyn 6	Zeb Rowell	Mabli Rose/Milly Hughes	-
Celf Blwyddyn 6	Mabli Rose	Milly Hughes	Zeb Rowell
Offerynnol (gwersi am llai na blwyddyn)	Mabli Rose	Seamus Byrne	Poppy Kerridge
Offerynnol (gwersi am fwy na blwyddyn)	Zeb Rowell	Poppy Kerridge	Ben Phillips/Jasmin Foster Leslie
Cadair	Milly Hughes	Grace Davies	Zeb Rowell
Côr	Mochno	Cletwr	

Sefydliad y Merched Taliesin



Ymgrych Rhannu Sgiliau

Fel rhan o ymgrych genedlaethol Sefydliad y Merched i rannu ein sgiliau yn y gymuned leol 'rydym wedi dechrau gweithdai ymarferol yn dysgu'r grefft o wneud ffelt. Dyma grefft oedd yn amlwg iawn yn yr ardal ganrif a mwyr yn ôl wrth gwrs. Creu potiau ffelt sy' wedi ennyn diddordeb nifer o'r pentref ac mae tri chwrs wedi bod hyd yn hyn a phawb yn llwyddo i ddeall y dechneg reit gymhleth a mynd adre' hefo potyn go unigryw (gweler y llun).

Cynhelir gweithdy ffeltio i blant yr ardal fore Mawrth 22 Ebrill yn y Llanfach ac i oedolion ar ddydd Sadwrn 24 Mai. Os oes diddordeb, rhaid archebu lle ymlaen llaw, drwy ffonio Beti Wyn ar 01970 832239.

Dewch atom!

Ewch ati i wirfoddoli y Gwanwyn hwn! Dewch atom i'r Llyfrgell Genedlaethol a chyfrannwch at ein gweledigaeth ni o ddarparu gwybodaeth i bawb. Mae'r Llyfrgell angen eich help!

Mae cynllun gwirfoddoli'r Llyfrgell, a genfogir gan Gronfa'r Loteri Fawr, yn cynnig amrywiaeth o dasgau a phrosiectau cyffrous a diddorol, o drawsysgrifio i roi trefn ar ddarluniau a dwstio llyfrau. Cewch gyfle i ddysgu sgiliau a chwrdd â ffrindiau newydd wrth gynorthwyo'r Llyfrgell i wella ei gwasanaethau i ddefnyddwyr. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r dudalen 'Am LIGC - Gwirfoddoli' ar wefan y Llyfrgell, neu'n well fyth, dewch i **Ffair Gwirfoddolwyr y Llyfrgell ar ddydd Iau, Mehefin 5ed rhwng 10 y bore a 4 y prynhawn**. Bydd cyfle i brofi ac i drafod yr amrywiol gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael o fewn y Llyfrgell a thu hwnt, teithiau tywys, gweithgareddau i blant iau, a mwyr!

Rydym ni ar fin lansio prosiect gwirfoddoli newydd sbon - ac os oes gennych ddiddordeb mewn digwyddiadau a phersonoliaethau Cymru'r ugeinfed ganrif - wel dyma gyfle cyffrous ichi'n cynorthwyo i ychwanegu gwerth at gasgliad ffotograffau Geoff Charles.

Mae'r casgliad yn wirioneddol unigryw. Bu Geoff Charles yn gweithio fel ffoto-newyddiadurwr i amryw o bapurau newydd, gan gynnwys y 'Wrexham Advertiser', 'Montgomeryshire Express' a 'Y Cymro', o'r 1930au hyd at y 1970au. Dros y cyfnod hwn fe wnaeth ffafwr a ni'r Cymry drwy gofnodi'r ffordd Gymreig o fyw sydd wedi hen ddiflannu erbyn hyn. Bellach, mae'r casgliad o dros 120,000 o negyddion yn un o drysorau'r Llyfrgell ac yn adnodd amhrisiadwy ar gyfer awduron, darlledwyr, haneswyr, myfyrwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Felly, dyma gyfle i bori drwy hanes diwylliannol a diwydiannol yr ugeinfed ganrif, gan gynnwys yr Eisteddfodau Cenedlaethol, Eisteddfodau Cenedlaethol yr Urdd, ynghyd â chofnod ffotograffig amhrisiadwy Geoff Charles o gymuned dyffryn Tryweryn cyn ei boddi yn 1965.

Yr Wythnos Sanctaidd a'r Pasg yn Ysgubor y Coed

Cynhelir y digwyddiadau canlynol er mwyn i bawb yn y gymuned gael cyfle i ddathlu y Pasg

Sul y Blodau 13 Ebrill: 3.00pm Yn maes parcio CADW bydd cyfle i blant gymryd eu tro i farchogaeth asyn ar hyd y ffordd gefn i'r eglwys. Bydd paned a theisennau croes yn yr Ystafell Haearn i ddilyn

Dydd Iau Cablyd 17 Ebrill: 7.00pm yn yr Ystafell Haearn fe weinir pryd bwyd a gwin i ddathlu Gwyl Pasg Iddewig. Archebwch eich lle gyda Alison 01654 781322 neu Sheila 01654 781332. Pris £5.

Dydd Gwener Groglith 18 Ebrill: 2.00-3.00pm Gwasanaeth yn Eglwys y Borth.

Dydd Sadwrn 19 Ebrill: 12.00pm yn yr Ystafell Haearn: Dathliad Pasg ar gyfer y plant, fe weinir cinio ysgafn a threfnir gemau, canu a helfa wyau pasg. Mae croeso i bob plentyn a'u rhieni. Gallwch adael eich plant efo ni am y digwyddiad gan bod Alison a dwy arall wedi cael eu gwirio drwy CRB.

4.00pm: bydd ymwelwyr y Llwybr Treftadaeth yn ymuno â ni am baned yn yr Ystafell Haearn.

Dydd Sul y Pasg 20 Ebrill: 9.30am Cymun sanctaidd yn Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach.



Dafydd a Nel Roberts, Cae Fadog, ynghyd â Eira Rowlands, Mrs Rowlands a Emrys Rowlands, Y Gelli, yn gadael Capel Cynon, Tryweryn, am y tro olaf.

Os na fedrwch ddod i adeilad y Llyfrgell yn Aberystwyth i weld y casgliad, beth am fynd ar-lein i bori drwyddo? Os ydych yn adnabod rhai o'r unigolion yn y ffotograffau, cysylltwch â ni fel y gallwn ychwanegu at y wybodaeth sydd gennym.

Byddwch yn rhan o'n hymdrech ni i rannu'r casgliad pwysig hwn gyda'r byd!

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am wirfoddoli – byddwn yn falch o glywed gennych trwy e-bost: gwyneth.davies@llgc.org.uk neu ffoniwch 01970 632991.

18 yw'r oed ieuengaf i wirfoddoli – ond does neb byth yn rhy hen i gychwyn!

Biosffer Dyfi UNESCO yn Aberystwyth

Eleni, bydd Cyfarfod Blynnyddol Biosffer Dyfi yn cael ei gynnal yn Aberystwyth. 'Mae'r Biosffer yn golygu datblygu partneriaethau a rheoli prosiectau ar gyfer dyfodol cynaliadwy' dywedodd Iolo ap Gwynn, Cadeirydd Partneriaeth Biosffer Dyfi. 'Mae Aberystwyth yn arbennig o bwysig o fewn y Biosffer. Ategodd 'mae posibiliadau anhygoel am weithio ychwanegol gyda'r Brifysgol gan ddefnyddio Biosffer Dyfi fel ardal ymchwil ar fywyd go iawn er budd lleol'.

'Rydym yn falch iawn mai Peter Davies, Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Cymru fydd y prif siaradwr yng nghyfarfod y 15 Mai' dywedodd Dr ap Gwynn. 'Ar hyn o bryd, mae'n arwain trafodaeth ar y Gymru yr ydym ei heisiau ar gyfer Llywodraeth Cymru a gallwn weld cysylltiadau pwysig rhwng hynny ac athroniaeth Biosffer Dyfi'

Biosffer Dyfi yw un o'r 621 'Gwarchodfa Biosffer' mewn 117 o wledydd a ddynodwyd gan Raglen Dyn a'r Biosffer UNESCO. Dyma'r unig un yng Nghymru ac mae'n un o ddim ond 6 Biosffer ym Mrydain.

Mae UNESCO yn gofyn i gymunedau yn yr ardaloedd hyn i brofi ac arddangos dulliau dyfeisgar o gynnal bywoliaeth, diwylliant ac economi, yn seiliedig ar amgylchedd iachus. Mae busnesau a mudiadau yn gweithio tuag at weledigaeth Biosffer Dyfi trwy weithgareddau sy'n cynnwys twristiaeth, addysg a'r celfyddydau.

Mae Cyfarfod Blynnyddol Biosffer Dyfi yn ddigwyddiad agored, felly gall unrhyw un alw heibio a dod i wybod mwy. Bydd manylion y lleoliad yn cael eu cyhoeddi yn agosach at yr amser ond gellir cael gwybodaeth hefyd drwy ffonio 01654 703965 neu ar y wefan www.biosfferdyfi.org.uk

Robin Farrar

Hwylusydd Prosiectau Biosffer Dyfi

01654 703965

07717 102923

Y Plas, Machynlleth SY20 8ER

www.biosfferdyfi.org.uk

www.ecodyfi.org.uk

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Morlan

Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

DIGWYDDIADAU MORLAN:

- Iesu, yr aberth sy'n maddau** (7.30, 9 Ebrill). Y sesiwn olaf o gwrs a arweinir gan Enid Morgan. Trefnir gan y grŵp C21 lleol.
- Ethics, empathy and imagination: Dr Rowan Williams** (7.30, 25 Ebrill). Darlith Flynyddol Morlan 2014. Cadeirydd: Parch. John Tudno Williams. Tocynnau: £5 – archebwch yn fuan! Ar gael o swyddfa Morlan yn ystod oriau swyddfa.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com
@CanolfanMorlan

STORFA CARTREF a BUSNES

Storio Hyblyg Diogel
Ystafelloedd storio i switio eich gofynion

TCC a Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi Gynhesu
Ar Werth
Bocsys, Bwrlwm Lapiu a deunydd pacio
Ymwelwch â'r siop arlein
www.boxshopsupplies.co.uk

MID WALES STORAGE
STORFA CANOLBARTH CYMRU
Ffôn—01654 705592

www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Ddell, Machynlleth, Powys, SY20 8BG

Y Gair Olaf



Yn ddyddiol bron byddaf yn darllen llith yn annog bwyta mathau arbennig o fwyd ac osgoi eraill. Tua phythefnos yn ôl cig coch oedd dan y lach. Honnai astudiaeth o America (ie, America gwlad y byrgers a stêcs yn fwy na'ch plât) bod diet yn drom o gig coch yn niweidiol ac yn arwain yn uniongyrchol at ganser. Cyn i ddyn gael cyfle i dreulio neu gamdreulio'r canlyniadau wedi wrth ymchwiliad yn datgan fod y cyfan yn nonsens ac yn seiliedig ar gamddechongli data.

Ac wedyn dyma griw o wyddonwyr o Goleg Prifysgol Llundain yn cyhoeddi'n ffyddiog nad yw'r argymhellid o bum llysieuyn neu ffrwyth y dydd bellach yn ddigonol. Na, rhaid nawr bwyta saith neu hyd yn oed deg dogn o ffrwyth neu lysiau bob dydd i ostwng y siawns o farwolaeth gynnar. Reit, dyma osod y targed newydd yn erbyn fy mhattrwm bwyta. Banana gyda grawnfwyd adeg brecwast, afal fel pwdin amser cinio, tomatos a salad/llysiau i swper - dyna bedwar neu falle bump ar ddiwrnod da. Dim sudd ffrwythau (gormod o siwgr), dim tatws (gormod o garbohdyreds) ac yn sicr dim sgolodion. Felly arbenigwyr clyfar, sut ar y ddaear dwi'n mynd i daro'r targed o saith neu ddeg llysieuyn neu ffrwyth?

Beth i wneud? Yr ateb callaf wrth gwrs yw cymedroldeb, a pheidio talu gormod o sylw i lithoedd y gwyddonwyr. Os nad yw epistol wythnos hon at eich dant, bydd un gwahanol wythnos nesa'. A nawr, dwi'n mynd i baratoi swper – cig eidion, llysiau a glased o win coch. Iechyd da!

Geraint Evans

Garej Davmor

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gôr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont
01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

Gwasanaeth Scania ARTHUR MORGAN

Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

SIWT MA' DOD YN UN O 'FERCHED BECA'?



MAE'N SYML...

1. YSGRIFENWCH SIEC AM £100*
(DYNA'R DARN ANODDAF, SIWR O FOD)
2. EI HANFON, YNGHYD Â'R HYSBYSEB HON, AT:
Radio Beca cyf. Uned 2, Bryn Salem, Felin-fach, Dyffryn
Aeron, Ceredigion, SA48 8AE.

[*Gallwch drofnw delu £10 y mis x 10 mis trwy gysylltu â'r swyddfa - 01 670 471600]

ENW:

CYFEIRIAD:

CÔD POST:

EBOST:

Cewch dystysgrif 'Aelod Sylfaenol' yn ôl â throad y post.
Cewch hefyd y boddhad o wybod i chi gyfrannu
at gryfhau cymdeithas y Gymraeg ar hyd a lled
sir Benfro, sir Gâr a Cheredigion.

CYFEIRWCH UNRHYW GWESTYNAU AT...
Geraint Davies 01545 570150 / 07974 366672 / GERAINT.DAVIES@nail.nesant.co.uk / Sulewyn Thomas 01267 235385 /
sulewynthomas@radio.co.uk / Tudur Lewis 01348 875700 / 07971 363083 / tudur@radioaberteifi.com
Euros Lewis 01570 471500 / 07813 173155 / yndol@radiobeca.co.uk
www.radiobeca.co.uk

CHWARAEON



Taranau A

Tal-y-bont yn Taranu

Mae cymaint o dimau pêl-droed bechgyn a merched lleol fel nad oes modd rhoi sylw yn y papur i bob un ohonynt ond mae'n amlwg fod gwaith aruthrol yn cael ei gyflawni gan griw prysur o hyfforddwy. Y tro hwn cawn gip ar gampau Taranau Tal-y-bont, sef y ddau dîm (A a B) o blant lleol dan wyth mlwydd oed. Erbyn hyn mae'r ddau dîm wedi chwarae 28 gêm yn ystod y tymor gan ennill 18, colli 8 a chwarae dwy gêm gyfartal. Enillodd Taranau A Dwrnamaint Penparcau a daeth Taranau B yn ail yn Nhwrnamaint Gary Pugh.



Uchod: Iestyn-Rhys Putt ar y bêl
Chwith: Tomos Jac Benjamin

Er bod pob un o'r chwaraewyr wedi cyfrannu'n fawr, mae Tomos Benjamin yn haeddu sylw arbennig gan iddo sgorio 70 gôl hyd yn hyn y tymor hwn. Mae angen hefyd canmol yr hyfforddwy Mike Putt a Paul Kelly am eu gwaith caled.

Bydd y Taranau ymhlith yr ugeiniau o dimau lleol fydd yn cymryd rhan yng Ngŵyl Pêl-droed Tal-y-bont sydd i'w chynnal ar Gae'r Odyn Galch ar 21 Mehefin.

Boddi yn Ymyl y Lan?

Deufis yn ôl roedd Papur Pawb yn darogan y byddai Clwb Pêl-droed Tal-y-bont yn ennill pencampwriaeth ail adran Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r cylch y tymor hwn, ond ers hynny mae'r tîm wedi dechrau llithro. Cyfartal 2-2 oedd y sgôr yn erbyn Llanilar ganol Mawrth, gêm yr oedd disgwyl i Dal-y-bont ei hennill. Yna ar ddydd Sadwrn cyntaf Ebrill collwyd 1-2 yn erbyn trydydd tîm y Coleg ar faes Blaendolau, gan agor y drws i'r tîm hwnnw guro Tal-y-bont i'r bencampwriaeth ar ddiwedd y tymor. Todd Penfold sgoriodd unig gôl Tal-y-bont yn y gêm honno.

Nid yw gobeithion bechgyn Tal-y-bont wedi pylu'n llwyr, wedi'r cyfan maent yn dal ar y brig, ond nid oes modd iddynt lithro yn ystod y gemau tyngedfennol sydd i'w chwarae yn ystod yr wythnosau nesaf.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

S4/C Calon Cenedl
Heart of the Nation

Band Cymru
9.00
Nos Sadwrn
26 Ebrill

Chwyth, pres a jazz...
gornest gerddorol sydd
â digon o swm a sglein.

s4c.co.uk

Garej Paul Joseph

01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre